**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| Dyddiad y Cyfarfod o’r Cabinet: | 17ain Rhagfyr 2024 |
| Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo’r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 1af Ionawr 2025 |

**PWNC**

Eitem 6: Strategaeth / Cynllun Llesiant

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd y Cynllun Llesiant fel cynllun ar gyfer cefnogi a hybu llesiant staff tros y blynyddoedd nesaf.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae’n bwysig fod Aelodau’r Cabinet yn ymwybodol ac yn fodlon â chynnwys y cynllun hwn sy’n strategaeth allweddol i fod yn cefnogi llesiant staff am y blynyddoedd nesaf. Daw’r Cynllun ger bron y Cabinet i gael ei derbyn yn ffurfiol wedi proses ymgynghoriad faith. Mae’r ymgynghoriad hynny wedi cynnwys y Tîm Rheoli Corfforaethol, y Panel, a’r Fforwm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, Fforymau Iechyd a Diogelwch Adrannol, Fforwm Penaethiaid Cynorthwyol a’r Rhwydwaith Rheolwyr. Mae’r ddogfen hefyd wedi ei chraffu yn y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi nol ym Mis Hydref.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: | 17ain Rhagfyr 2024 |
| Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 1af Ionawr 2025 |

## PWNC

Eitem 7: Adroddiad Cwynion a Gwella Gwasanaeth Chwarter 1-2 2024/25

## PENDERFYNIAD

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi trosolwg o berfformiad y Cyngor yng nghyswllt ymdrin â chwynion a gwella gwasanaethau gan amlygu llwyddiannau, sialensiau a datblygiadau. Hynny er mwyn sicrhau bod y Cabinet yn fodlon gyda'r perfformiad dros y cyfnodau dan sylw.

Cyflwynir dadansoddiad o ddata meintiol ac ansoddol, sy'n fesur o berfformiad y Cyngor yn y cyd-destun hwn am y cyfnod 1 Ebrill 2024 – 30 Medi, 2024 ynghyd â gwybodaeth gymharol am y blynyddoedd blaenorol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.